

# Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

**Ffurflen ymateb  
i'r  
ymgyngoriad**

Eich enw: **Rebecca Williams**

Sefydliad (os yw'n berthnasol): **UCAC**

e-bost/rhif ffôn:

[rebecca@athrawon.com](mailto:rebecca@athrawon.com) / 01970 639950

Eich cyfeiriad: **Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais,  
Aberystwyth SY23 2EU**

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **17 Ionawr 2014** i:

Claire Habberfield  
Y Tîm Deddfwriaeth  
Yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Rhadbost NAT 8910  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [CurriculumforWales@cymru.gsi.gov.uk](mailto:CurriculumforWales@cymru.gsi.gov.uk)

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno y dylai'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg, Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2–4 fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn i ategu'r FfLIRh?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

### Sylwadau ategol

Mae dwy elfen i'r cwestiwn, ac mae'r ymateb i'r naill yn gadarnhaol a'r llall yn negyddol. Dyna pam yr rydym wedi nodi 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' uchod.

Yn gyntaf, rydym yn cydweld yn llwyr â'r cynnig i gysoni'r Meysydd Dysgu a'r Rhaglenni Astudio gyda disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) – mae'n gwneud synnwyr perffaith bod y rhain yn cyd-fynd â'i gilydd; yr unig siom yw na ddigwyddodd hynny wrth gyflwyno'r FfLIRh yn hytrach na blwyddyn ar ôl i'r FfLIRh ddod yn statudol, a dwy flynedd ar ôl ei gyflwyno.

Yn ail, nid ydym wedi ein darbwyllo ynghylch y disgwyliadau "o flwyddyn i flwyddyn". Mae fformat y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cydnabod bod plant yn datblygu ar gyflymder gwahanol i'w gilydd, ac yn osgoi cysylltu lefelau gydag oedrannau penodol - er bod disgwyliadau cyffredinol yn eu lle (e.e. bod disgyblion yn cyrraedd lefel 4 erbyn diwedd eu haddysg gynradd).

Yn naturiol, mae'n ddefnyddiol i athrawon wybod beth yw'r disgwyliadau *cyffredinol* ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau, ond mae hyn yn wahanol iawn i bennu disgwyliadau penodol ar gyfer pob blwyddyn ysgol – sy'n mynd yn groes i'r gydnabyddiaeth bod plant yn datblygu ar gyflymder gwahanol. Y peryglon o wneud hynny fyddai (1) bod plentyn sy'n arafach yn datblygu'n teimlo (ac yn cael ei weld) yn fethiant, a (2) bod ysgolion yn canolbwyntio ar ofynion penodol bob blwyddyn, gan esgeuloso'r plant hynny sydd heb gyrraedd y lefel honno eto, a'r rheiny y gallent fod yn gweithio ar lefel uwch.

**Cwestiwn 2** – A ydych yn cytuno y dylid ymestyn y FfLIRh i gynnwys materion llythrennedd a rhifedd newydd yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 4 oed?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

Cytunwn yn gyffredinol â'r bwriad i sicrhau bod sylfeini cadarn o ran llythrennedd a rhifedd yn perthyn i'r Cyfnod Sylfaen, ac mae'n sicr yn briodol bod athrawon a staff cymorth dysgu'n yn y blynyddoedd cynnar yn ymwybodol o ddisgwyliadau cyffredinol y FfLIRh.

Fodd bynnag, rydym yn gadarn o'r farn na ddylai gofynion y FfLIRh reoli'r hyd sy'n digwydd mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar (plant 3 a 4 mlwydd oed); byddai rhoi gofynion y FfLIRh fel canolbwynt i'r addysg gynnar hon danseilio athroniaeth y cyfnod.

Mi fydd yn eithriadol o bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng egwyddorion/disgwyliadau cyffredinol mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd, a pharch i athroniaeth ac ethos cydnabyddedig y Cyfnod Sylfaen.

**Cwestiwn 3** – A ydych yn cytuno mewn egwyddor y dylai ‘sgiliau ehangach’ ddod yn elfennau statudol o’r cwricwlwm cenedlaethol?

<b>Cytuno</b>	✓	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

Cytunwn â’r cynnig i roi pwyslais ar sgiliau ehangach, a chytunwn yn ogystal bod angen i hynny ddigwydd ar sail statudol. Fel arall, ni fyddant yn cael y sylw na’r pwyslais haeddiannol – gan ysgolion sydd dan bwysau i weithredu lluo o ofynion, na gan y Llywodraeth o ran y gefnogaeth angenrheidiol. Rydym yn gefnogol iawn i’r bwriad bod dilyniant o ran datblygiad y sgiliau hyn o’r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4.

Rhaid pwysleisio’n gryf iawn yr angen i gynlluniau a threfniadau terfynol, manwl fod yn eu lle blwyddyn gyfan cyn y disgwylir i ysgolion eu gweithredu, a rhaid sicrhau y defnyddir y flwyddyn i roi hyfforddiant o safon uchel i bob aelod perthnasol o staff ysgolion, i baratoi adnoddau a deunyddiau enghreifftiol. Rhaid i athrawon gael arweiniad trwyadl ynghylch sut mae hyrwyddo’r sgiliau hyn yng nghyd-destun gwersi ‘go-iawn’ a hynny ar gyfer bob oedran, ac ar draws y cwricwlwm cyfan h.y. beth fydd yn wahanol i’r hyn sy’n digwydd nawr o ran yr hyn y bydd athrawon a disgyblion yn eu gwneud ar lawr dosbarth.

**Cwestiwn 4** – A ydych yn cytuno y dylai’r sgiliau hyn gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi, effeithiolrwydd personol a llythrennedd ddigidol?

<b>Cytuno</b>	✓	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

--

**Cwestiwn 5** – A ydych yn cytuno y dylai ysgolion adrodd ar gynnydd mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu/Datblygiad Mathemategol neu Gymraeg, Saesneg a mathemateg – gan gynnwys llythrennedd a rhifedd yn unol â’r diffiniad yn y FfLIRh, i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru ar ddiwedd pob cyfnod addysgol?

<b>Cytuno</b>	✓	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

Mae hyn yn digwydd i raddau helaeth yn barod; mi fydd yn bwysig sicrhau bod yr adroddiad yn un sy'n cynnwys sylwadau ynglŷn â chynnydd, diddordeb ac ymdrech y disgyblion, ac nid yn sgôr simplistig, neu'n 'lefel' sy'n anodd iawn i rieni'i dehongli.

Rhaid cydbwysu hynny gyda'r goblygiadau llwyth gwaith i athrawon, a sicrhau bod fformat a chynnwys yr adroddiad yn un sy'n rhoi'r lefel angenrheidiol o wybodaeth, mewn fformat addas, ond sy'n hwylus i'w gwblhau gan athrawon. Ar gyfer y sector uwchradd yn arbennig, bydd angen arweiniad clir ynglŷn â sut i gydlynu mewnbwn gan athrawon ar draws y cwricwlwm mewn i un adroddiad – a phwy ddylai fod yn gyfrifol am y cydlynu, ac am ysgrifennu'r adroddiad terfynol.

Mae'r model sy'n cael ei gynnis yn yr atodiad i'r ddogfen ymgynghorol yn edrych yn eithriadol o feichus pan ystyrir bod yn rhaid edrych ar bob disgwyliad yn y FfLIRh yn mhob maes pwnc, ar gyfer pob disgybl – a bod angen i rywun ddistyllu'r holl wybodaeth hynny i un adroddiad diwedd Cyfnod.

Unwaith eto, pwysleisiwn yr angen i Lywodraeth Cymru ddarparu arweiniad a modelau hollol glir i ysgolion, a hynny blwyddyn gyfan cyn disgwyl i ysgolion weithredu'r drefn newydd, er mwyn rhoi amser ar gyfer hyfforddiant a gosod systemau yn eu lle.

**Cwestiwn 6** – A ydych yn cytuno y dylai ysgolion barhau i asesu ar ddiwedd cyfnod ar Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, yn ogystal â darparu adroddiad ar y meysydd hynny?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

Mae'n hanfodol bod Datblygiad Personol a Chymdeithasol yn parhau'n ganolog i addysg yn y Cyfnod Sylfaen, ac ni ellir sicrhau hynny heb fynnu bod ysgolion yn adrodd arno.

Rydym yn derbyn galwadau cyson gan aelodau sydd wedi'u dychryn ar ddechrau blwyddyn at y diffyg sgiliau sylfaenol sydd gan ddisgyblion newydd (e.e. gallu gfael mewn cyllell a fforc, gwisgo'u hunain, mynd i'r toiled). Heb i'r sgiliau sylfaenol hyn fod yn eu lle nid oes bwrpas i ysgol ddechrau hybu'r 'sgiliau ehangach', felly cytunwn yn gryf iawn â'r cynnis.

**Cwestiwn 7** – A ydych yn cytuno y dylid cynnwys tasgau dysgu cyfoethog fel rhan o fodel asesu cyffredinol ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

Nid oes pwrpas cyflwyno tasgau o'r fath ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Dylai tasgau asesu gael eu hymgorffori yng ngwaith arferol dosbarth ar draws y cyfnodau allweddol ac yn ôl yr angen fel bod modd i athrawon gynllunio ymhellach ar sail yr hyn a ganfyddir o'r asesiad.

Mewn sawl dalgylch mae disgyblion yn gweithio ar unedau pontio y bydd yr athrawon cynradd ac uwchradd yn cydgyllunio ac yn cyd-asesu, gyda'r gwaith yn cael ei barhau yn yr ysgol uwchradd. Mae'r math hwn o asesu yn llawer mwy addas na thasgau digyswllt fydd yn cynyddu'r pwysau ar ddisgyblion ac athrawon Blwyddyn 6.

Os cyflwynir tasgau statudol ar ddiwedd CA2 mae perygl iddynt ddisodli arferion da o ran pontio sydd eisoes ar waith.

**Cwestiwn 8** – A ydych yn cytuno â'r argymhellion ein bod yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cadw'r gofyniad i roi i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 asesiad cyfunol o gynnydd yn y rhaglenni astudio Cymraeg, Saesneg a mathemateg newydd, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith ac yn dileu'r gofyniad i roi i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 asesiad o gynnydd ym mhob un o'r pynciau sylfaen statudol eraill?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

Croesawn hyn yn fawr am ei fod yn lleihau ar waith gweinyddol a chasglu data diangen.

Bydd angen bod yn wylidwrus o ran sut y cyflwynir y newid, i athrawon a disgyblion fel ei gilydd, nad yw'n cael ei ddehongli fel is-raddiad i'r pynciau eraill mewn unrhyw ffordd.

**Cwestiwn 9** – Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, a ydych yn cytuno ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno newidiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

Er bod athrawon yn awyddus i weld gofynion y FfLIRh yn cael eu cysoni â'r cwricwlwm, mae nifer o broblemau gyda'r amserlen arfaethedig.

Yn gyntaf, mae hi nawr yn fis Ionawr 2014, ac mae'r syniad y byddai'r newidiadau hyn yn barod i'w gweithredu erbyn mis Medi yn ymddangos yn gwbl afrealistig. Hyd yn pe bai'r Llywodraeth yn gallu sicrhau bod y diwygiadau wedi'u gwneud, ni fyddai'n caniatáu unrhyw amser ar gyfer rhaedru'r wybodaeth i ysgolion, nac unrhyw amser o gwbl ar gyfer hyfforddiant i athrawon a staff cymorth dysgu, na gosod gweithdrefnau yn eu lle yn yr ysgolion eu hunain. Mae'n rhaid i AdAS gynllunio amser, nid yn unig ar gyfer eu rhan nhw o'r gwaith, ond hefyd y goblygiadau o ran gweithredu'r newidiadau'n bwyllog, yn ofalus ac yn drwyadl ar lawr dosbarth.

Rydym eisoes wedi crybwyll y ffaith ei bod hi'n siomedig bod y newidiadau hyn yn digwydd ar ôl cyflwyno'r FfLIRh, yn hytrach nag yn rhan o'r un broses gynlluniedig. Er y gwelwn rywfaint o synnwyr mewn rhannau'r newidiadau arfaethedig i ddau gam, mae aelodau'r undeb y pryderi y bydd newidiadau di-baid i'r cwricwlwm am gyfnod

estynedig (blynyddoedd, mwy na thebyg) i ddod, ac na fydd cyfle i newidiadau ymwreiddio cyn gorfod wynebu'r don nesaf o ddiwygio.

Y gwirionedd yw bod staff ysgolion eisoes wedi gorfod ailysgrifennu eu cynlluniau gwaith i ymgorffori gofynion y FfLIRh - a hynny heb fawr o arweiniad ynghylch sut i wneud hynny - ac mae'n edrych yn debygol y bydd angen addasu'r rhain eto o fis Medi 2014 i gwmpasu'r newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn. Pan ddaw athrawon i ddeall y bydd newidiadau pellach wedyn, mae perygl y bydd y Llywodraeth yn wynebu gweithlu blin a blinedig sydd wedi colli'r awydd a'r ewyllys da i weithredu unrhyw newidiadau pellach. Bydd athrawon ar arweinwyr ysgol yn gofyn a yw swyddogion AdAS wir yn deall natur a goblygiadau'r hyn maen nhw'n gofyn iddynt ei wneud, ac a oes ganddynt unrhyw amgyffred o'r oriau o waith ychwanegol mae'n golygu i weithredu'r fath newidiadau.

Wedi dweud hynny, gwerthfawrogwn y cynnig i adael blwyddyn rhwng cyflwyno'r newidiadau a'u gwneud yn statudol.

**Cwestiwn 10** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Nid yw'r ymgynghoriad wedi gofyn cwestiwn penodol ynglŷn ag ymestyn y FfLIRh i Gyfnod Allweddol 4 a'r TGAUau newydd ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Mathemateg x 2. Cefnogwn y cynnig hwnnw.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: